| | |
|---|---|
| **Enw:** | *Aliya Iftikhar, Swyddog Polisi* |
| **Sefydliad:** | *Cymorth i Ferched Cymru* |
| **Cyfeiriad ebost:** | *Aliyaiftikhar@welshwomensaid.org.uk* |
| **Rhif ffôn:** | *02920 541 551* |
| **Cyfeiriad:** | *Tŷ Pendragon, Caxton Place, Pentwyn, Caerdydd CF23 8XE* |
| **Dyma farn:** | *Cymorth i Ferched Cymru (Trydydd Sector) – yr elusen genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i ddileu cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod.* |



**Cymorth i Ferched Cymru**

Cymorth i Ferched Cymru yw'r corff ymbarél yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth genedlaethol i wasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) arbenigol annibynnol yn y trydydd sector yng Nghymru. Mae ein haelodau'n cynnwys 20 o wasanaethau cymorth arbenigol. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu cymorth a gwaith ataliol sy'n achub ac yn newid bywydau mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol yn erbyn plant a phobl ifanc, dynion a bechgyn, pobl draws ac anneuaidd, fel rhan o rwydwaith o ddarpariaeth yn y DU. Fel corff ymbarél, ein prif nod yw atal cam-drin domestig, trais rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod a sicrhau gwasanaethau ansawdd uchel i oroeswyr sy'n cael eu harwain gan anghenion, yn ymateb i rywedd ac yn gyfannol. Rydym ni'n cydweithio'n genedlaethol i integreiddio a gwella ymatebion cymunedol ac ymarfer yng Nghymru. Rydym ni hefyd yn dyfarnu Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol Cymru (NQSS), fframwaith achredu cenedlaethol i wasanaethau cam-drin domestig arbenigol yng Nghymru (gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru) fel rhan o gyfres o systemau a fframweithiau achredu integredig yn y DU. Ceir rhagor o wybodaeth am NQSS yma).

**C1. Caiff rhyw am rent ei ddiffinio fel landlordiaid yn cynnig neu'n darparu llety am rent gostyngol yn gyfnewid am wasanaethau rhywiol. Ydych chi'n meddwl bod y disgrifiad hwn yn adlewyrchu rhyw am rent?**

Nac ydym.

**a) Esboniwch eich ateb yn gryno**

Nid ydym yn credu bod y diffiniad o ryw am rent yn ddigon cynhwysfawr ac yn teimlo ei fod yn eithrio llawer o sefyllfaoedd gwahanol na fyddai efallai'n cynnwys landlord, ac achosion lle mae soffa yn cael ei geisio i gysgu arno ac nid llety tymor hirach. Rydym yn credu bod rhyw am rent yn aml yn bodoli fel

rhan o gam-fanteisio ehangach, a rhyw i oroesi, lle caiff rhyw ei gyfnewid er mwyn diwallu anghenion uniongyrchol fel anghenion ariannol, llety neu rywle i gysgu. Ceir nifer o unigolion gwahanol neu grwpiau troseddu trefnedig sy'n gallu sefydlu 'trefniadau rhyw am rent' sy'n galluogi cam-fanteisio neu gam-fanteisio ymhellach ar fenywod bregus a merched. Rhaid cydnabod bod trefniadau rhyw am rent yn cael eu defnyddio i ymarfer grym a rheolaeth dros fenywod a merched, mewn amgylchiadau lle nad oes ganddynt unrhyw opsiwn ond ildio er mwyn peidio â bod yn ddigartref ar y stryd neu i osgoi amddifadedd. Amlygodd un gwasanaeth arbenigol fod hyn hefyd yn berthnasol i fenywod a merched mewn perthnasoedd o gam-drin domestig lle cânt eu gorfodi i gyflawni gweithgaredd rhywiol er mwyn parhau i gael rhywle i aros neu i sicrhau bod y morgais/biliau'n cael eu talu. Rhaid i'r diffiniad o ryw am rent ganolbwyntio ar yr elfen o gam-fanteisio a gorfodi ac mae Cymorth i Ferched Cymru'n credu na ellir anwybyddu hyn. Rhaid cydnabod hefyd bod rhyw am rent yn drosedd ar sail rhywedd, gyda 98% o ymatebwyr arolwg Generation Rent a Mumsnet yn fenywod ac amcangyfrif fod 200,045 o fenywod yn profi rhyw am rent yn y DU ac Iwerddon, sy'n tanlinellu'r effaith anghymesur mae'n ei gael ar fenywod[1].

Yn ein hymateb, mae unrhyw sylw a wneir ynghylch rhyw am lety'n cynnwys **pob math o drefniadau llety** boed hyn yn soffa ar fenthyg neu dŷ dros dro, er mwyn atal unigolyn rhag bod yn ddigartref ar y stryd.

**C2. Pa rai o'r senarios canlynol ydych chi'n meddwl fyddai'n drosedd? Dylech dybio nad yw'r person sy'n darparu'r cyswllt rhywiol yn ymwneud â gwaith rhyw fel arall.**

*Mae person yn cynnig llety drwy hysbysebu fflat un ystafell wely a rennir yn gudd ar wefan ac mae unigolyn yn derbyn yr hysbyseb, heb sylweddoli bod disgwyl iddynt rannu ystafell.*

Mae'r sefyllfa hon yn drosedd. Mae'r unigolyn sy'n cynnig y llety yn fwriadol wedi cuddio'r wybodaeth gyflawn am y fflat un ystafell wely a heb egluro y byddai disgwyl iddynt rannu ystafell. Byddai'r unigolyn oedd yn derbyn yr hysbyseb wedi gwneud hynny heb gael y wybodaeth lawn am y trefniadau byw. Rhaid ystyried y bwriad dros guddio'r wybodaeth hon a'r diffyg sicrwydd a diogelwch a fyddai gan y 'tenant' wrth rannu fflat ag un ystafell wely.

*Mae landlord yn hysbysebu ystafell am rent gostyngol ac yna'n perswadio unigolyn i ddarparu gwasanaethau rhywiol yn lle rhent.*

[1] https://care.org.uk/news/2023/05/concern-raised-that-cost-of-living-is-forcing-vulnerable-women-into-rhyw am rent , page 6.

Mae'r sefyllfa hon yn drosedd. Ceir anghydbwysedd grym rhwng y landlord, sy'n berchen ar yr eiddo, a'r unigolyn sy'n dymuno rhentu'r ystafell. Mae'r rhent gostyngol yn debygol o ddenu unigolion bregus, sydd efallai ag adnoddau ariannol cyfyngedig ac na fyddai wedi gallu fforddio'r ystafell ar y pris gwreiddiol. Byddai'r landlord yn ymwybodol o'r bregusrwydd hwn, a gallai ddefnyddio grym i'w gorfodi i ddarparu gwasanaethau rhywiol yn lle rhent.

*Mae landlord yn cynnig yn agored sefyllfa o wasanaethau rhywiol yn gyfnewid am lety, ac mae tenant yn derbyn.*

Mae'r sefyllfa hon yn drosedd. Fel y nodwyd uchod, ceir anghydbwysedd grym rhwng landlord a'r unigolyn sy'n bwriadu rhentu ystafell. Efallai fod yr unigolyn yn betrus am wrthod cynnig o wasanaethau rhywiol yn gyfnewid am lety oherwydd ofnau am fod yn ddigartref, ac y byddai'r landlord yn rhoi geirda gwael pe bai'n chwilio am lety arall ar rent. Efallai fod llawer o unigolion yn teimlo nad oes ganddynt ddewis ond derbyn y cynnig neu efallai ddim yn sylweddoli ei fod yn annerbyniol i landlord gynnig trefniant o'r fath yn y lle cyntaf.

*Mae cytundeb tenantiaeth eisoes ar waith, ond mae newid mewn amgylchiadau'n achosi i'r tenant gynnig trefniadau amgen, gan gynnwys cyswllt rhywiol ac mae'r landlord yn derbyn.*

Mae'r sefyllfa hon yn drosedd. Hyd yn oed mewn sefyllfaoedd lle mae'r tenant yn ei gynnig, ceir anghydbwysedd grym sylweddol o hyd rhwng y ddau. Mewn sefyllfa lle mae'r tenant yn cynnig y trefniadau amgen hyn, bydd y landlord yn ymwybodol o'u bregusrwydd a bydd derbyn y cynnig yn galluogi'r landlord i gam-fanteisio ar hyn.

*Os yw landlord yn bygwth troi'r tenant allan oni bai bod gwasanaethau rhywiol yn cael eu darparu.*

Mae'r sefyllfa hon yn drosedd. Bydd yr wltimatwm hwn gan y landlord yn golygu bod unigolyn yn gorfod penderfynu rhwng bod yn ddigartref a chytuno i ddarparu'r gwasanaethau hyn. Bydd gan y landlord rym sylweddol dros yr unigolyn a fyddai'n eu gadael mewn sefyllfa anghynaladwy ac mewn perygl o gam-fanteisio.

**C3. Beth ydych chi'n ei wybod am nodweddion a/neu amgylchiadau tenantiaid sydd yn nodweddiadol yn wynebu trefniadau rhyw am rent? (e.e. statws cyflogaeth, statws teulu, statws mewnfudo, amgylchiadau ariannol)?**

Fel y dyfynnwyd gan Alison Thewliss AS, yn ystod dadl Tŷ'r Cyffredin ar drosedd rhyw am rent ym mis Tachwedd 2018, amlygodd Scottish Women's Aid fod rhyw am rent yn ''groestoriad o dlodi a thrais yn erbyn menywod. Ni allwch ddelio ag un heb y llall''[2]. Rydym ni'n credu bod rhaid gweld rhyw am rent yng nghyd-destun ehangach trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol a sut mae hyn wedi'i wreiddio mewn diwylliant, naratifau ac agweddau o anghydraddoldeb o ran rhywedd, gwahaniaethu a gwreig-gasineb. Nid yw'r amgylchiadau lle mae menywod a merched yn eu cael eu hunain mewn trefniadau rhyw am rent yn bodoli mewn seilo. Mae 32% o fenywod digartref wedi dweud bod trais domestig wedi cyfrannu at eu digartrefedd[3], mae menywod yn fwy tebygol o fod yn dlawd a chael eu taro'n galetach gan doriadau i nawdd cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus ac mae cyfraddau tlodi'n sylweddol uwch i'r unigolion hynny sy'n dod o grwpiau ethnig Bangladeshi, Pakistani a Du[4].

Mae'r tirlun yng Nghymru wedi golygu bod llochesi'n gorfod troi goroeswyr i ffwrdd oherwydd y diffyg gwelyau yn dilyn cynnydd yn y galw. Mae'r argyfwng costau byw wedi gorfodi cartrefi i dorri'n ôl ar hanfodion gyda'r rheini ar incwm isel yn y perygl mwyaf[5] ac mae prisiau rhent wedi cynyddu tua 3.9%[6]. Mae llawer o bobl yn methu fforddio'r costau cynyddol, tra bod prinder sylweddol o lety addas arall[7]. Gallai dros 200,000 o rentwyr benywaidd preifat fod wedi cael cynnig rhent gostyngol yn gyfnewid am weithredoedd rhywiol ar ryw bwynt yn eu bywydau, gyda'r arolwg yn tynnu sylw at y ffaith mai menywod bregus sydd â'r risg uchaf o'r math hwn o gam-fanteisio[8]. Mae un darparwr gwasanaeth arbenigol wedi nodi bod trefniadau rhyw am rent yn endemig ymhlith y menywod a'r merched hynny sy'n byw bywyd byrarhosol neu sy'n preswylio mewn llety nad yw'n barhaol. Mae'r rheini sydd eisoes yn dioddef cam-fanteisio yn y diwydiant rhyw yn aml yn cael eu heithrio'n annheg o lety[9], ac yn dibynnu ar fenthyca soffa neu aros gyda chydnabod, perthnasau a chyn bartneriaid er mwyn peidio â gorfod byw ar y strydoedd. Nododd un gwasanaeth arbenigol efallai nad yw trefniant i gyfnewid rhyw am rywle i breswylio yn digwydd o'r dechrau ond y gall ddigwydd yn ddiweddarach a gall yr unigolyn deimlo nad oes ganddynt opsiynau eraill neu hyd yn oed ddisgwyl ymwneud â'r math hyn o drefniadau oherwydd cam-fanteisio yn y gorffennol. Nododd gwasanaeth arbenigol arall y gellir cynnig y trefniant hwn hefyd yn gyfnewid am gyffuriau, alcohol a mathau eraill o gam-fanteisio megis caethwasiaeth ddomestig.

---

[2] https://hansard.parliament.uk/commons/2018-11-28/debates/18112839000001/OffenceOfSexForRent at 5.05pm.
[3] https://farm5.staticflickr.com/4357/36197015982_164fca1e3b_o.png.
[4] https://wbg.org.uk/wp-content/uploads/2022/03/The-gendered-impact-of-the-cost-of-living-crisis.pdf, page 1.
[5] https://research.senedd.wales/research-articles/the-cost-to-life-how-soaring-living-costs-affect-people-s-health-and-wellbeing/.
[6]https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/indexofprivatehousingrentalprices/january2023#uk-private-rental-prices, point 1.
[7] https://research.senedd.wales/research-articles/tackling-homelessness-a-mountain-that-can-feel-impossible-to-climb/.
[8] https://www.generationrent.org/wp-content/uploads/2023/06/Predatory-behaviour-in-the-Private-Rental-Sector-October-2022-1.pdf, pages 4 -6.
[9] https://welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2021/11/Cross-Party-Groups-on-Housing-and-on-Violence-against-Women-and-Children-on-housing-and-sexual-violence.pdf.

Mae cysylltiad clir rhwng digartrefedd a cham-drin domestig[10], ac mae'n hanfodol fod Cymru a'r DU yn ehangach yn sicrhau bod goroeswyr yn gallu cael llety diogel a sicr i atal cam-drin a cham-fanteisio pellach. Mae grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifol ethnig yn anghymesur o debygol o fod yn ddigartref, gyda chanran uwch o lawer yn rhentu yn hytrach na pherchen ar eu cartref eu hun[11]. Mae grwpiau ar y cyrion eisoes yn wynebu llu o rwystrau pan ddaw at dai, yn enwedig y rheini sydd heb hawl i gael cyllid cyhoeddus neu fudwyr yn fwy eang. Mae statws mewnfudo'n golygu bod menywod a merched yn agored i wynebu trefniadau rhyw am rent oherwydd eu statws ansicr a gallu'r landlord i ddefnyddio hyn yn eu herbyn, i'w cymell i dderbyn y trefniadau cam-fanteisiol hyn, a hwythau'n ceisio ffoi rhag cam-drin neu drais. Mae'r menywod a'r merched hyn yn wynebu rhwystrau pellach wrth geisio cael cymorth ac iawn oherwydd y diffyg cyllid yn y sector, iaith a rhwystrau diwylliannol[12]. Nododd un goroeswr fod goroeswyr cam-drin neu drais yn aml heb unrhyw eiddo ac yn aml yn ddiymgeledd[13]. Mae'r Cyd-Gyngor er Lles Mewnfudwyr wedi nodi er nad oes unrhyw ymchwil penodol i'r statws o fod heb hawl i gyllid cyhoeddus a rhyw am rent, yn anecdotaidd mae'n gwneud pobl yn fwy bregus, gan fod y rheini y mae'r landlord yn cam-fanteisio arnynt yn gwybod na allant hawlio cymorth tai neu ddigartrefedd yn hawdd. Mae landlordiaid yn gwybod os yw tenant yn cwyno am gyflwr eu llety, neu'r cam-fanteisio, y gellir eu riportio i'r Swyddfa Gartref. Mae'r ddynameg grym yn gosod y rheini sydd heb hawl i gyllid cyhoeddus mewn sefyllfa anodd dros ben.

Fel y nodwyd gan Ffederasiwn Women's Aid England, mae llawer o fenywod yn profi lefelau cynyddol a mwy difrifol o reoli a cham-drin ariannol[14]. Mae'r bregusrwydd ariannol hwn, pan fydd goroeswr yn ceisio ffoi o sefyllfa o gam-drin neu drais, yn gallu eu rhoi mewn sefyllfa anghynaliadwy o orfod derbyn cytundeb rhyw am rent er mwyn osgoi bod yn ddigartref. Mae Beyond the Streets wedi nodi bod yr argyfwng costau byw hefyd yn gorfodi llawer o fenywod a merched i gyflawni 'rhyw er mwyn goroesi' er mwyn talu biliau neu gostau byw eraill, sy'n gosod unigolion sydd eisoes yn fregus mewn sefyllfaoedd o gam-fanteisio[15] . Canfu ymchwil fod y rheini oedd ag incwm aelwyd o dan £20,000 lawer yn fwy tebygol o ddioddef ymddygiad rheibus, gydag 1 ym mhob 10 yn cael cynnig trefniant rhyw am rent[16]. Ochr yn ochr â'r trefniadau hyn, roedd llawer o gyfranogwyr yn profi ymddygiad amhriodol o du landlordiaid ac asiantau gosod, sy'n pwysleisio ymhellach hyd yn oed os nad oedd trefniant rhyw am rent wedi'i gynnig, bod 14% wedi profi ensyniadau awgrymog a 12% wedi clywed sylwadau o natur rywiol[17].

---

[10] https://www.crisis.org.uk/media/249186/2019-domestic-abuse.pdf, page 7.
[11] https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2021/03/Improving-Race-Equality-in-Housing-and-Accommodation-.pdf, page 6.
[12] https://welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2021/11/No-Recourse-to-Public-Funds-%E2%80%93-Welsh-Womens-Aid-Briefing-for-MSs.pdf.
[13] ibid.
[14] https://care.org.uk/news/2023/05/concern-raised-that-cost-of-living-is-forcing-vulnerable-women-into-rhyw am rent.
[15] ibid.
[16] https://www.generationrent.org/wp-content/uploads/2023/06/Predatory-behaviour-in-the-Private-Rental-Sector-October-2022-1.pdf, page 4.
[17] Ibid, page 5.

Credwn ei bod yn annerbyniol fod menywod a merched mewn amgylchiadau mor fregus yn dioddef cam-fanteisio ac yn cael eu cymell i ddarparu gwasanaethau rhyw er mwyn peidio â bod yn ddigartref. Hyd yn oed os nad yw hyn yn cael ei gynnig, mae ymchwil yn dangos bod llawer o fenywod a merched yn dal i brofi rhyw fath o aflonyddu rhywiol gan landlordiaid neu asiantau gosod.

**C4. Beth ydych chi'n ei wybod am nodweddion a/neu amgylchiadau pobl sy'n darparu llety sy'n ymwneud yn arferol â chyfnewid cysylltiadau rhywiol am lety? (e.e. statws perthynas, statws ariannol)**

Fel y dywedodd Julie James AS yn 2018 yn ystod trafodaeth yn y Senedd ar yr angen i ddileu rhyw am rent, 'Nid landlord yw rhywun yn gofyn am ryw yn hytrach na rhent — troseddwr yw hwnnw''[18]. Credwn fod y rheini sy'n darparu llety mewn cytundebu rhyw am rent yn ymarfer grym a rheolaeth dros fenywod a merched bregus er mwyn cam-fanteisio arnynt. Mae ymchwil yn pwysleisio bod y lefel o aflonyddu rhywiol a brofir gan denantiaid yn uchel, a rhaid cydnabod bod pob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol wedi'u gwreiddio mewn diwylliant, naratifau ac anghydraddoldebau o ran rhywedd.

Caiff trefniadau rhyw am rent eu postio bron yn llwyr gan ddynion ar wefannau fel Craigslist. Canfu dadansoddiad o hysbysebion a bostiwyd yn Llundain a Los Angeles fod llawer o'r hysbysebion yn cynnwys iaith amwys er mwy osgoi'r system fonitro a bod 81% o'r sampl o hysbysebion yn cynnwys ensyniadau rhywiol ac iaith fel 'ffafrau' a 'dulliau talu'n ôl' sy'n awgrymu rhyw neu weithredoedd rhywiol[19]. Byddai angen i lawer o denantiaid ddehongli'r hyn roedd yr hysbyseb yn ei olygu a byddent eisoes mewn sefyllfa o drafod anghyfartal oherwydd pwysau economaidd[20]. Rhaid nodi hefyd nad asiantau gosod a landlordiaid yn unig sydd wrthi, gall y trefniadau hyn gael eu cynnig gan gymheiriaid, cynbartneriaid a grwpiau troseddu trefniadol i gam-fanteisio neu gam-fanteisio ymhellach ar fenywod a merched bregus.

Mae gan unrhyw un sy'n cynnig y mathau hyn o drefniant rym sylweddol dros yr unigolyn, gan y byddai'n ymwybodol o'u gwendidau a'r ffactorau gwahanol sy'n croestorri â hyn, megis bod yn oroeswr cam-drin, heb hawl i gyllid cyhoeddus neu fod y diwydiant rhyw wedi cam-fanteisio arnynt.

**C5. Beth ydych chi'n ei wybod am amgylchiadau lle bydd chyfnewid cysylltiadau rhywiol am lety'n digwydd?**

[18] https://record.assembly.wales/Plenary/5369#C146961, 362.
[19] https://www.oii.ox.ac.uk/news-events/news/sex-on-craigslist-a-new-kind-of-housing-advertisement-has-popped-up-on-online-marketplaces-that-asks-potential-renters-for-more-than-a-deposit/.
[20] ibid.

Fel y pwysleisiwyd yn ein hymateb i gwestiwn 3, mae'r unigolion sy'n wynebu'r mathau hyn o drefniadau'n fwy tebygol o lawer o fod yn fregus a heb fawr o opsiynau eraill ar gael iddynt.

**C6. Ydych chi'n meddwl bod y ffactorau hyn wedi newid yn ddiweddar, ac os felly, sut?**

Credwn fod y nifer o amgylchiadau lle caiff cysylltiadau rhywiol eu cyfnewid am lety wedi cynyddu yn dilyn y blynyddoedd o lymder a bellach yr argyfwng costau byw a thai. Fel y nodwyd uchod, pwysleisiodd y Women's Budget Group fod menywod yn fwy tebygol o deimlo effaith toriadau i nawdd cymdeithasol, cyflogau isel[21] ac yn ei chael yn fwy anodd dianc o berthynas o gam-drin os ydynt yn ansicr sut y byddant yn eu cynnal eu hunain[22]. Mae hyn yn gosod menywod a merched mewn sefyllfa fregus heb lawer o opsiynau gwahanol o bosibl.

Fel y nodwyd eisoes, mae'r rheini y mae'r diwydiant rhyw yn cam-fanteisio arnynt yn aml yn cael eu heithrio ar gam o dai, mae'r rhai sydd heb hawl i gyllid cyhoeddus yn ei chael yn anodd sicrhau llety addas a diogel oherwydd nad ydynt yn gallu hawlio budd-daliadau tai ac mae darpariaeth llochesi'n ei chael yn anodd ymdopi â'r galw gan oroeswyr sydd angen llety dros dro ar frys. Mae'r system i gefnogi digartrefedd wedi'i disgrifio gan Fyddin yr Iachawdwriaeth fel 'mynydd amhosibl ei ddringo'[23] oherwydd y galw sylweddol sy'n cael ei waethygu gan brinder tai addas[24], ac sy'n golygu bod llawer o bobl mewn sefyllfaoedd anodd, lle gallai fod rhaid iddynt symud i eiddo na allant ei fforddio.

Canfu ymchwil gan Sefydliad Bevan fod diffyg sylweddol o ran yr eiddo sydd ar gael ar y gyfradd Lwfans Tai Lleol (ychydig dros 1 ym mhob 100 eiddo)[25]. Y gyfradd hon sy'n pennu faint o gymorth y gall aelwyd incwm isel ei gael yn y sector preifat, drwy'r system fudd-daliadau[26]. Fodd bynnag mae'r gyfradd wedi'i rhewi ers 2020 tra bo rhenti wedi cynyddu dros y 12 mis diwethaf yn bennaf. Mae hyn wedi golygu bod tenantiaid yn gorfod symud i lety nad yw'n ymarferol yn ariannol, symud i lety ansawdd isel neu geisio cymorth drwy'r system ddigartrefedd sydd eisoes ar dorri. Heb gynnydd i'r lwfans tai lleol, bydd llawer o bobl yn cael eu gorfodi i mewn i sefyllfaoedd anodd, a byddant yn agored i drefniadau rhyw am rent er mwyn peidio â bod yn ddigartref. Yn 2018, nododd y Pwyllgor Dethol Gwaith a Phensiynau fod rhai menywod wedi troi at ryw i oroesi oherwydd y ffordd roedd y system credyd cynhwysol newydd yn gweithio, gan olygu bod rhaid iddynt aros am o leiaf 5 wythnos i dderbyn eu taliadau cyntaf ond eu bod yn dal i fod angen cyllido eu hanghenion uniongyrchol[27].

[21] https://wbg.org.uk/wp-content/uploads/2022/03/The-gendered-impact-of-the-cost-of-living-crisis.pdf.
[22] https://www.womensaid.org.uk/the-cost-of-living/.
[23] https://business.senedd.wales/documents/s131441/HO2%2014%20-%20Salvation%20Army.pdf.
[24] https://research.senedd.wales/research-articles/tackling-homelessness-a-mountain-that-can-feel-impossible-to-climb/.
[25] Wales' Housing Crisis: Local Housing Allowance and the private rental market in Wales, Winter 2023 - Bevan Foundation.
[26] ibid.
[27] https://publications.parliament.uk/pa/cm201919/cmselect/cmworpen/83/8304.htm.

Mae'n hanfodol cael ffocws ar gynyddu argaeledd tai fforddiadwy ar draws y sector cymdeithasol a phreifat yng Nghymru ac yn y DU yn ehangach, er mwyn atal menywod a merched bregus rhag gorfod troi at ryw am lety. Rhaid darparu mwy o gymorth ariannol i unigolion bregus yn ystod yr argyfwng costau byw ac rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i adolygu cyfradd y lwfans tai lleol a'r cap ar fudd-daliadau er mwyn sicrhau nad yw menywod a merched yn cael eu gadael mewn lle anodd, ac felly'n agored i landlordiaid, grwpiau troseddu cyfundrefnol neu gymheiriaid gam-fanteisio arnynt.

**C7. Mae canllawiau cyfreithiol Gwasanaeth Erlyn y Goron yn nodi y gallai darparu llety yn gyfnewid am ryw gael ei drin gan y ddeddfwriaeth ganlynol – adran 52 Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (achosi neu annog puteindra er elw) 12 ac adran 53 y Ddeddf Troseddau Rhywiol (rheoli puteindra er elw). Mewn rhai amgylchiadau penodol, gallai gosod hysbyseb yn ceisio denu rhywun i drefniant rhyw am rent hefyd fod yn drosedd dan adran 52.**

**Pa newidiadau, os o gwbl, ydych chi'n meddwl sydd eu hangen er mwyn mynd i'r afael â chyfnewid cyswllt rhywiol am lety?**

Credwn yn gryf nad yw'r ddeddfwriaeth gyfredol yn addas ar gyfer sicrhau euogfarn i'r rheini sy'n cymell menywod a merched bregus i drefniadau rhyw am rent. Dim ond un person sydd wedi'i gael yn euog dan y ddeddfwriaeth hon, a hynny yn 2022. Mae Shelter wedi amcangyfrif bod tua 30,000 o fenywod yn y DU wedi derbyn cynnig o drefniadau o'r fath rhwng dechrau'r pandemig (mis Mawrth 2020) a mis Ionawr 2021[28]. Mae adrannau 52 a 53 y Ddeddf Troseddau Rhywiol yn nodi bod angen i'r dioddefwr hunan-ddiffinio fel putain[29] er mwyn sicrhau euogfarn, sy'n creu rhwystr sylweddol i unrhyw fenyw neu ferch sy'n ceisio sicrhau cyfiawnder.

Nid yw'r gyfraith yn diogelu dioddefwyr yn ddigonol rhag yr ymarfer rheibus hwn ac nid yw'n cynnig unrhyw fath o gyfiawnder hygyrch iddynt. Mae menywod a merched eisoes yn wynebu llu o rwystrau wrth ddefnyddio system y llysoedd, a rhaid peidio â gosod mwy o rwystrau o fewn y ddeddfwriaeth a fydd yn atal y rheini sy'n dioddef cam-fanteisio rhag dod ymlaen. Gan mai dim ond un person sydd wedi derbyn euogfarn dan y Ddeddf, nid yw hyn yn atal y rheini sy'n gwneud trefniadau rhyw am rent gan nad oes cynsail cryf o euogfarnu a dim ffordd i'r dioddefwr gael iawn am y cam-fanteisio.

**C8. Pa bryderon, os o gwbl, sydd gennych chi am newidiadau posibl i gyfraith trosedd yn y maes hwn?**

[28] https://twitter.com/shelter/status/1345696456741695488?lang=en-GB.
[29] https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/prostitution-and-exploitation-prostitution.

Credwn yn gryf fod rhaid cael trosedd ar wahân ar gyfer rhyw am rent nad yw'n gorfodi'r dioddefwr i hunan-ddiffinio fel putain, ond rhaid i hyn beidio â bod yn ynysig. Rhaid ehangu cwmpas y diffiniad o ryw am rent (fel y trafodwyd yng nghwestiwn 1) a rhaid cael ymrwymiad i fynd i'r afael â'r amgylchiadau sy'n gadael menywod a merched heb opsiynau ac yn eu gwneud yn agored i'r mathau hyn o drefniadau. Rhaid hefyd cael ymrwymiad pellach i sicrhau bod cymdeithas yn cydnabod y trefniadau hyn fel rhai sy'n seiliedig ar rywedd a bod croestoriadedd rhwng tlodi a thrais yn erbyn menywod.

Fel y trafodwyd yng nghwestiwn 6, rhaid cael ymrwymiad i gynyddu'r cyflenwad o dai addas yn y sector rhentu cymdeithasol a phreifat. Hefyd rhaid cael cynnydd yng nghyfraddau'r lwfans tai lleol, gwaredu'r cap budd-daliadau a rhaid rhoi cymorth helaeth yn sgil yr argyfwng costau byw. Er mwyn sicrhau bod cymaint o fenywod a merched â phosibl yn derbyn cyfiawnder, rhaid i Lywodraeth y DU sicrhau bod cymorth cyfreithiol ar gael i bawb, er mwyn lleihau rhwystr y mae'r gost ariannol o fynd i'r llys yn ei osod i'r rheini sy'n ceisio cyfiawnder. Rhaid cael comisiynu tymor hir hefyd ar gyfer darparu gwasanaeth i sicrhau bod goroeswyr y math hwn o gam-fanteisio'n derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt.

Rhaid cael digon o adrodd a chasglu data am ryw am rent, oherwydd ar hyn o bryd mae'n amlwg nad yw'r sefydliadau a'r gwasanaethau'n gofyn y cwestiynau penodol hyn er mwyn darparu'r cymorth cywir. Rhaid darparu hyfforddiant wedi'i lywio gan drawma i bob gweithiwr proffesiynol, megis staff llysoedd, awdurdodau lleol a'r heddlu, i sicrhau eu bod yn deall deinameg trefniadau rhyw am rent a'r effaith a'r trawma y gall hyn ei beri i fenywod a merched. Ceir pryderon sylweddol bod cyn lleied o oroeswyr yn teimlo eu bod yn gallu hysbysu am ymosodiadau rhywiol gan fod diffyg sylweddol o ran hysbysu o'r fath, felly mae'n hanfodol nad yw'r system cyfiawnder troseddol a'r ôl-groniad yn y llysoedd[30] yn gweithredu fel rhwystrau at hysbysu a bod ffocws ar ddiwygio yn y maes hwn.

**C9. Mae adran 54 Deddf Troseddau Rhywiol 2003 yn diffinio 'putain' fel person (A) sydd, ar o leiaf un achlysur a boed hynny dan gymhelliad neu beidio, yn cynnig neu'n darparu gwasanaethau rhywiol i berson arall yn gyfnewid am dâl neu addewid o dâl i A neu drydydd person; ac y dylid dehongli 'puteindra' yn unol â hynny. Yn isadran (2) ac adran 53A, ystyr 'tâl' yw unrhyw fantais ariannol, gan gynnwys gwaredu rhwymedigaeth i dalu neu ddarparu nwyddau neu wasanaethau (gan gynnwys gwasanaethau rhywiol) am ddim neu am bris gostyngol.**

**a) Ydych chi'n credu bod angen newid yr agwedd hon ar gyfraith trosedd? Os felly, nodwch fanylion sut.**

[30] https://rapecrisis.org.uk/get-informed/breaking-point/.

Fel y nodwyd yng nghwestiwn 8, rydym ni'n credu'n gryf bod rhaid cael trosedd ar wahân ar gyfer rhyw am rent sydd â diffiniad ehangach i gynnwys y gwahanol gyfranogwyr (fel landlordiaid, cymheiriaid a chynbartneriaid) yn y cytundebau hyn, ac sy'n ymdrin â chytundebau rhentu, y rheini sy'n benthyg soffa a phopeth rhwng y ddau. Ni chredwn y dylid diffinio menywod a merched sy'n dioddef cam-fanteisio yn yr amgylchiadau hyn fel puteiniaid.

**C10. Pa fesurau amddiffynnol neu ataliol ychwanegol, os o gwbl, ydych chi'n meddwl sydd eu hangen i atal y cam-fanteisio a'r niwed sy'n gysylltiedig â chyfnewid cysylltiadau rhywiol am lety?**

Tynnodd un gwasanaeth arbenigol sylw at yr effaith ddifrifol mae trefniadau rhyw am rent yn ei gael ar fenywod a merched. Mae llawer yn cael eu cymhlethu gan y trawma, tra bo eraill yn teimlo ei fod yn barhad o'r cam-drin maen nhw eisoes wedi'i brofi.  Mae llawer o fenywod yn ofni os byddant yn hysbysu am y sefyllfa y maent ynddi, y gallent fod mewn perygl o gael eu troi allan o'u cartref yn sydyn, gallai'r landlord barhau i fynd ar eu hôl i gael rhent unwaith y byddant yn gadael neu na fydd ganddynt fawr o opsiynau unwaith y byddant yn gadael. Gall y rheini sydd wedi dioddef cam-fanteisio yn y diwydiant rhyw deimlo mai'r trefniant hwn yw'r hyn maent yn ei haeddu a'i fod yn ''normal'' iddynt gan eu bod yn cael eu hystyried yn fregus ac mewn amgylchiadau anobeithiol. Mae gwasanaethau arbenigol wedi pwysleisio bod y trefniadau hyn yn gallu gwaethygu iechyd meddwl a cham-drin sylweddau/alcohol ymhellach yn sgil trawma'r profiadau unigol. Mae llawer o fenywod a merched yn teimlo nad ydynt yn cael eu cefnogi gan yr heddlu ac yn credu bod stigma, sy'n dangos pa mor bwysig yw sicrhau bod hyfforddiant digonol i'r holl staff cyfiawnder troseddol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu gweithio gyda goroeswyr mewn ffordd a gaiff ei llywio gan drawma, sy'n seiliedig ar gryfderau a'i harwain gan anghenion.

Yn y flwyddyn ariannol 2022/23, lle cofnodwyd data, roedd angen cymorth ychwanegol yn gysylltiedig â thai ar 53% o oroeswyr a gyrchodd wasanaethau cam-fanteisio rhywiol penodol yng Nghymru.  Rhaid cael ffocws ar atal, a fyddai'n sicrhau bod cyflenwad digonol o dai boddhaol a hygyrch i bawb, a bod y rhwystrau at gael llety'n cael eu chwalu er mwyn sicrhau cydraddoldeb i bawb o ran cymorth a darpariaeth llety. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflawni ei hymrwymiad i fynd i'r afael â digartrefedd a sicrhau bod grwpiau ar y cyrion, fel y rheini sydd heb hawl i gael cyllid cyhoeddus, yn cael mannau diogel a sicr i breswylio ynddynt heb berygl o gam-fanteisio.

Rhaid cael cydnabyddiaeth hefyd fod rhyw am rent yn rhan o sffêr ehangach o gam-fanteisio, gan gydnabod ar yr un pryd lle nad yw hyn yn bresennol, bod ymchwil i ddangos bod llawer o denantiaid wedi profi aflonyddu rhywiol gan landlordiaid ac asiantau gosod. Rhaid cael ffordd i sicrhau bod tenantiaid yn cael eu diogelu yn erbyn yr ymddygiad rheibus hwn ac nad yw aflonyddu rhywiol yn cael ei ystyried yn drosedd lefel isel. Rydym yn credu'n gryf bod rhaid i Lywodraeth y DU fynd i'r afael

â phob math o ryw am rent ac aflonyddu rhywiol gan landlordiaid a thenantiaid o fewn yr ymrwymiad i ddileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, er mwyn sicrhau nad yw menywod a merched yn dioddef trawma neu drawma pellach.

Gallai mesurau ataliol eraill megis bod gwefannau sy'n hysbysebu eiddo ar rent yn cyflwyno gwiriadau Datgelu a Gwahardd[31] i atal y rheini sydd â record droseddol rhag hysbysebu ystafelloedd, fodd bynnag nid yw hyn yn diogelu menywod a merched rhag cyflawnwyr nad ydynt wedi'u cael yn euog o unrhyw drosedd neu drefniadau a wneir drwy gymheiriaid neu ddulliau eraill.

**C11. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r gosodiad canlynol? Mae'r lefel o gymorth i bobl sydd wedi cyfnewid cyswllt rhywiol am lety'n ddigonol.**

Nid ydym yn credu bod y lefel o gymorth i bobl sydd wedi cyfnewid cyswllt rhywiol am lety yn ddigonol, gan na chredwn fod digon o ymwybyddiaeth o'r trefniadau hyn ymhlith gwasanaethau, sefydliadau, y system cyfiawnder troseddol a chymdeithas yn gyffredinol. Ychydig o adroddiadau a data sydd ar gael ar y mater hwn, sy'n cael ei waethygu gan ddiffyg dealltwriaeth y gwasanaethau sy'n golygu nad yw o reidrwydd yn ffurfio rhan o'u hasesiadau tai, risg nac iechyd. O ganlyniad nid yw menywod a merched yn y safleoedd bregus hyn yn cael eu canfod ar y cyfle cynharaf i sicrhau eu bod yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt.

Ceir rhwystr sylweddol hefyd wrth gael gafael ar gymorth gan y gallai llawer o fenywod a merched beidio â chredu eu bod yn dioddef cam-fanteisio neu eu bod yn ofni datgelu'r hyn sydd wedi bod yn digwydd am eu bod yn ofni na chânt eu credu. Amlygir hyn fwy fyth i'r rheini o grwpiau ar y cyrion sydd â rhwystrau pellach wrth gyrchu cymorth fel rhwystrau iaith, diffyg ymddiriedaeth mewn sefydliadau a diffyg dealltwriaeth o'u hawliau. Mae cymorth digonol a chynaliadwy'n hanfodol, ond eto i gyd rhaid cydnabod y gwahanol rwystrau y mae llawer o fenywod a merched yn eu hwynebu wrth gyrchu'r cymorth hwn a sut y gellir eu dadansoddi.

Rhaid casglu data digonol i sicrhau bod digon o wasanaethau'n cael eu comisiynu i allu cwrdd â galw'r rheini sydd angen cymorth, boed yn gymorth emosiynol, cymorth tai neu gymorth i sicrhau cyfiawnder. Fel y nodwyd yn flaenorol, rhaid cael hyfforddiant digonol i wasanaethau, sefydliadau, awdurdodau lleol a'r system cyfiawnder troseddol, i sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud gyda menywod a merched mewn ffordd a gaiff ei llywio gan drawma, sy'n seiliedig ar gryfderau a'i harwain gan anghenion ac i sicrhau lle bynnag y byddant yn troi am gymorth neu i ddatgelu, eu bod yn derbyn y gefnogaeth iawn y tro cyntaf. Rhaid cael hyfforddiant hefyd ar ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chroestoriadedd i sicrhau bod pob profiad yn cael ei ddeall. Rydym ni'n credu'n gryf bod dileu trais yn

[31] https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-64728917.



Welsh Women's Aid is a registered charity in England and Wales, No. 1140962
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

erbyn menywod a merched, ym mhob ffurf, yn fusnes i bawb a rhaid cael dull system gyfan ar gyfer ei atal a chefnogi'r menywod a'r merched sydd wedi profi neu sy'n profi'r mathau hyn o drefniadau.

**C 12. Disgrifiwch y cymorth rydych chi eisoes yn ymwybodol ohono i'r rheini sy'n ymwneud â chyfnewid rhyw am rent.**

Ceir gwasanaethau arbenigol niferus yng Nghymru sy'n cynnig cymorth i oroeswyr trais rhywiol a cham-fanteisio rhywiol, ac sydd yn eu tro'n cefnogi menywod a merched sydd wedi bod yn rhan o drefniadau rhyw am rent. Maent yn cynnig cymorth emosiynol ac ymarferol. Fodd bynnag nid yw'n ymddangos bod darpariaeth gwasanaeth penodol ar gyfer rhyw am rent. Mae sefydliadau fel Shelter Cymru yn gallu darparu cymorth o safbwynt tai a gall opsiynau tal lleol gynnig cymorth a chyngor ond ni fyddant o reidrwydd yn derbyn dyletswydd digartrefedd. Rhaid gwreiddio cymorth pellach ym mhob gwasanaeth, sefydliad ac awdurdod lleol i sicrhau bod menywod a merched sy'n dioddef cam-fanteisio'n gallu cael cymorth cyn gynted â phosibl.

**C13. Ydych chi'n cynrychioli sefydliad?**

Ydym

**C14. Os ydych chi wedi ateb yn gadarnhaol i gwestiwn 10, dewiswch pa gategori sy'n adlewyrchu orau'r sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli.**

Elusen Trais yn erbyn Menywod a Merched

**C15. Beth yw enw'r sefydliad rydych chi'n ymateb ar ei ran?**

Cymorth i Ferched Cymru

**C16. Ydych chi wedi darparu cymorth uniongyrchol i bobl sydd wedi cyfnewid cyswllt rhywiol am lety?**

Nac ydym

**C17. Ydych chi wedi ymgysylltu ag unrhyw sefydliadau statudol (e.e. yr heddlu, awdurdod lleol, iechyd a thai) neu anstatudol (e.e. sefydliadau cymdeithas sifil) eraill ar fater rhyw am rent?**

Ydym